



Yr Amodol

Dyma ffurfiau amodol y ferf bod.

Cadarnhaol	Cwestiwn	Negyddol
Baswn i/ Byddwn i	Faswn i?/ Fyddwn i?	Faswn i ddim/ Fyddwn i ddim
Baset ti/ Byddet ti	Faset ti?/ Fyddet ti?	Faset ti ddim/ Fyddet ti ddim
Basai e/ Byddai ef	Fasai e?/ Fyddai ef?	Fasai e ddim/ Fyddai ef ddim
Basai hi/ Byddai hi	Fasai hi?/ Fyddai hi?	Fasai hi ddim/ Fyddai hi ddim
Basen ni/ Bydden ni	Fasen ni?/ Fyddden ni?	Fasen ni ddim/ Fyddden ni ddim
Byddech chi/ Basech chi	Fasech chi?/ Fyddech chi?	Fasech chi ddim/ Fyddech chi ddim
Bydden nhw/ Basen nhw	Fasen nhw?/ Fyddden nhw?	Fasen nhw ddim/ Fyddden nhw ddim

Mae'r ffurfiau mewn print glas uchod yn fwy ffurfiol na'r ffurfiau du.

Ateb cwestiynau

Wrth ateb cwestiynau mae :

- ti > fi
- chi > fi/ni
- fi > ti/chi
- ni > chi

Edrychwch ar y ffurfiau isod ar gyfer y ffurfiau anffurfiol.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Faswn i?	Baset, baset ti	Na faset, faset ti ddim
Faset ti?	Baswn, baswn i	Na faswn, faswn i ddim
Fasai fe/o?	Basai, basai fe/o	Na fasai, fasai fe/o ddim
Fasai hi?	Basai, basai hi	Na fasai, fasai hi ddim
Fasen ni?	Basen, basen ni	Na fasen, fasen ni ddim
Fasech chi?	Baswn, baswn i Basen, basen ni	Na faswn, faswn i ddim Na fasen, fasen ni ddim
Fasen nhw?	Basen, basen nhw	Na fasen, fasen nhw ddim

Yr amodol perffaith (would have)

Rydym yn defnyddio **wedi** gyda ffurfiau'r amodol i gyfleu'r ystyr *would have* + berf yn Saesneg, e.e.

- Bydden nhw wedi cyrraedd mewn pryd.
- Fyddwn i ddim wedi talu can punt am docyn.



- Fyddet ti wedi gwrando arni?

Cofiwch:

Dydym ni ddim yn gallu cael **yn/'n** a **wedi** nesaf at ei gilydd, e.e.

- Byddai e'n **wedi** ennill. X
- Byddai e **wedi** ennill. ✓

Yr amodol perffaith parhaus (would have been)

Rydym yn defnyddio **wedi bod yn** gyda ffurfiau'r amodol i gyfleu'r ystyr *would have been* yn Saesneg, e.e.

- Bydden nhw **wedi bod yn** hapus iawn.
- Fyddwn i ddim **wedi bod yn** bwyta cyn y ras.
- Fyddet ti **wedi bod yn** anfon negeseuon?

Cofiwch:

Dydym ni ddim yn gallu cael **yn/'n** a **wedi** nesaf at ei gilydd, e.e.

- Byddai e'n **wedi bod yn** y siop. X
- Byddai e **wedi bod yn** y siop. ✓

Pe

Rydym yn defnyddio **pe** gyda'r ffurfiau amodol i fynegi ansicrwydd neu amheuaeth, e.e.

- Pe baswn i'n gweithio'n galed, baswn i'n siwr o gael dyrchafiad.
- Pe byddwn i'n gyfoethog, byddwn i'n teithio o gwmpas y byd.

Yn aml, mae'r ffurfiau ffurfiol yn cael eu byrhau fel a ganlyn.

Pe bawn i

Pe baet ti

Pe bai e/o

Pe bai hi

Pe baen ni

Pe baech chi

Pe baen nhw

Mae'n bosibl defnyddio **pe** gyda'r amodol perffaith hefyd, e.e.

- Pe bawn i wedi paratoi'n well, byddwn i wedi cael y swydd.
- Pe baet ti wedi gwrando arna i, byddet ti wedi ennill y gêm.
- Pe baen nhw'n ymarfer yn fwy aml, bydden nhw'n fwy ffit.

Pe + negyddol

Rydym yn defnyddio'r patrwm a ganlyn i ffurfio'r negyddol.

- Fydden ni ddim wedi ennill **pe na** baen ni wedi ymarfer gymaint.



- Byddwn i'n gyfoethog **pe na** bawn i wedi cael plant.
- Byddai e'n anhapus iawn **pe na** bai wedi priodi.

Cofiwch

Gyda'r presennol neu'r dyfodol rhaid defnyddio **os**, e.e.

Os bydd hi'n braf yfory awn i lan y môr.

Os dysgaf fy ngwaith, rwy'n siwr o lwyddo.